# YSGOL DYFFRYN TRANNON, TREFEGLWYS

## Cylchlythyr / Newsletter

## Mawrth / March 2024

**Diwedd tymor…**

Wrth i ni ddod at ddiwedd y tymor, roeddwn i eisiau diolch i chi am eich cefnogaeth. Mae wedi bod yn dymor prysur gyda llawer o'n disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau dawnsio, chwaraeon, Eisteddfodau a llawer mwy! Mae sawl un ohonoch wedi helpu trwy gludo disgyblion yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu casglu'n brydlon yn dilyn ymarferion ar ôl ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn. Hoffwn ddiolch hefyd i staff yr ysgol sydd wedi rhoi o'u hamser i hyfforddi'r plant ar ôl ysgol a mynychu'r digwyddiadau ar benwythnosau. Mae eich ymroddiad a'ch ymrwymiad i ddisgyblion YDT yn ffantastig. Mae'r disgyblion wedi cynrychioli Ysgol Dyffryn Trannon ar gynifer o achlysuron— gan roi YDT ar y map!

**Prydiau Ysgol Am Ddim: Blwyddyn 5 a 6**

Mae'n bleser gennym eich hysbysu y bydd gan fl 5 a 6 hawl i brydau ysgol am ddim ar ôl y Pasg. Mae hyn yn golygu bod angen clirio'r **holl** arian cinio sy'n ddyledus erbyn 22.03.24 fan bellaf.

Gwiriwch eich cyfrif ParentPay i wneud yn siŵr eich bod yn gyfredol ac wedi talu'r hyn sy'n ddyledus. Diolch.

**Monitro Llywodraethwyr**

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol a braf oedd croesawu aelodau i'r ysgol y tymor hwn. Y ffocws oedd edrych ar yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored a gwrando ar ddysgwyr. O hyn, mae meysydd i'w datblygu, gan gynnwys:

1. Ardal llyfrgell angen sylw - ail-drefnu'r cyfeirlyfrau. Datblygu ardaloedd gweithio tawel fel bod disgyblion yn mwynhau darllen ac ymlacio gyda llyfrau ac atgyfnerthu mwynhad o ddarllen.
2. Sicrhau bod byrddau arddangos a waliau gweithio yn berthnasol ac yn cael eu diweddaru ym mhob man.
3. Mannau allanol i'w sefydlu a'u defnyddio i gefnogi dysgu.
4. Y dysgwyr i ddeall y 4 Diben yn llawn.
5. Y dysgwyr i ddeall y cod marcio yn llawn.
6. Y dysgwyr i gael 'Camau nesaf' wedi'u diffinio'n glir yn eu llyfrau fel eu bod yn deall eu ffordd ymlaen.

**Clwb Brecwast / Cinio Ysgol / Bws Nofio**

Gyda gwyliau'r Pasg yn agosáu, rydym wedi adolygu cyllid ac wedi sylwi bod nifer o rieni gyda balans heb eu talu ar gyfer Clwb Brecwast, cinio ysgol (CA2) a'r bws nofio. Ar adegau, mae hyn yn ddyledus o'r tymor diwethaf. Felly, plîs gwiriwch eich cyfrifon ParentPay i wneud taliad os oes angen. Diolch ymlaen llaw.

Sicrhewch fod eich cyfrifon mewn credyd a dylid talu am glwb brecwast a'r bws nofio **O FLAEN LLAW** ac nid **ÔL-DDYLEDION**. Diolch am eich cydweithrediad.

**Dyddiadau Mawrth…**

14.03.24 Eisteddfod Ddawns yr Urdd @The Hafren, Y Drenewydd
15.03.24 Rygbi'r Urdd a Comic Relief (Gwisgwch beth sy'n eu gwneud yn hapus – awgrymir cyfraniad o £1 plîs)
16.03.24 Eisteddfod yr Urdd @Ysgol Uwchradd Y Drenewydd
22.03.24 Adroddiad Cynnydd Disgybl adre & Gorffen am y Pasg
25.03.24 'Sioe Maldwyn' 1pm-3.45yp @Ysgol Dafydd Llwyd

**Dyddiadau Ebrill…**

08.04.24 Dychwelyd i'r ysgol
09.04.24 & 10.04.24 Sesiynau 'Galw Heibio' Cynnydd Disgybl 3.35pm-5pm
09.04.24 Rownd derfynol Gala Canolbarth Powys
11.04.24 Traws gwlad
12 & 19.04.24 Beicio Blwyddyn 6

**Cynnydd Disgybl**

Fel rhan o'n gwaith monitro cynnydd disgybl, bydd rhieni'n derbyn Adroddiad Cynnydd Disgybl cyn diwedd y tymor. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gynnydd eich plentyn, ei lesiant yn yr ysgol, y 'Camau nesaf…' yn ei dysgu a gwybodaeth am sut y gallwch gefnogi gartref.

Mae cynnydd disgybl yn bersonol i'ch plentyn ac yn unol â'u datblygiad eu hunain. Felly, ni ellir cymharu cynnydd eich plentyn â dysgwr arall.

Yn dilyn ymlaen o'r adroddiad, ar ôl gwyliau'r Pasg, rydym yn cynnig sesiynau 'Galw Heibio' a fydd rhwng 3.35 - 5yp Dydd Mawrth 9fed a Dydd Mercher 10fed o Ebrill. **Mae'r sesiynau hyn ar eich cyfer chi a'ch plentyn.** Galwch draw gyda'ch plentyn, ar amser sy'n gyfleus i chi, i edrych ar waith a siarad â'ch plentyn am yr hyn y maent wedi gwneud. **Nid oes angen trefnu apwyntiad.** Bydd y sesiynau hyn yn digwydd yn nosbarth eich plentyn a bydd yr athrawes ar gael hefyd. Edrychwn ymlaen at weld chi a'ch plentyn yn ystod un o'r sesiynau hyn!

**Hanner tymor cyntaf yr Haf:** Nofio i fl 5 a 6 a bl 1 a 2 **Ail hanner tymor yr Haf:** Nofio i Derbyn a bl 3 a 4

# YSGOL DYFFRYN TRANNON, TREFEGLWYS

## Cylchlythyr / Newsletter

## Mawrth / March 2024

**End of term…**

As we come to the end of term, I wanted to thank you for your support. It has been a busy term with many pupils being involved in dance, sporting events at Urdd and cluster level, Eisteddfodau and much more. Many of you have helped with transporting pupils to and from events as well as ensuring that they are collected promptly following after school practises. We are very grateful. Thanks also to school staff who have given their time to coach the children after school and attend the events at weekends. Your dedication and commitment to the pupils of YDT is fantastic. The pupils have represented Ysgol Dyffryn Trannon on so many occasions - putting YDT on the map!

**Universal Free School Meals: Year 5 & 6**

We are pleased to inform you that after Easter, year 5 & 6 will be entitled to Universal Free School Meals. This means that **all** outstanding dinner money owing, needs to be cleared by 22.03.24 at the latest.

Please check your ParentPay account to make sure that you are up to date and have paid what is owed. Thank you.

**Governor Monitoring**

The governing body play an important part in the life of the school and it was lovely to welcome members into the school this term. The focus was looking at both the indoor and outdoor learning environments and listening to learners. From this, areas to develop include:

1. Library area - re-organisation of the reference books. Develop quiet working areas so that pupils enjoy reading and relaxing with books reinforcing an enjoyment of reading.
2. Ensure display boards and working walls are relevant and updated in all areas.
3. Outside areas to be set up and used to support learning.
4. Learners to fully understand the 4 Purposes.
5. Learners to fully understand the marking code.
6. Learners to have a clearly defined ‘Next steps’ in their books so that they understand their way forward.

**Breakfast Club / School Dinners / Swimming Bus**

With the Easter holiday approaching, we have reviewed finances and have noticed that there are a number of parents with outstanding balances for Breakfast Club, school dinners (juniors) and the swimming bus. Some of these balances are from last term. Therefore, please check your ParentPay accounts to make a payment if required. Thank you in advance.
Please ensure that your accounts are in credit as Breakfast Club, school dinners (where applicable) and the swimming bus should be paid for **IN ADVANCE** and not **IN ARREARS**.
Thank you for your cooperation.

**March dates…**

14.03.24 Urdd Dance Eisteddfod @The Hafren, Newtown
15.03.24 Urdd Rugby and Comic Relief (Wear what makes them happy - suggested £1 donation please)
16.03.24 Urdd Eisteddfod @Newtown High School
22.03.24 Pupil Progress Reviews sent home & Finish for Easter
25.03.24 ‘Sioe Maldwyn’ prac. 1pm-3.45pm @Ysgol Dafydd Llwyd

**April dates…**

08.04.24 Back to school
09.04.24 & 10.04.24 Pupil Progress ‘drop-in’ sessions 3.35pm-5pm
09.04.24 Mid-Powys Gala final
11.04.24 Cluster cross country
12 & 19.04.24 Year 6 Cycling Proficiency

**Pupil Progress Reviews**

As part of our monitoring of pupil progress, parents will receive a Pupil Progress Report before the end of this term. This report will provide you with information about your child’s progress, their well-being at school, their ’Next steps…’ in their learning and information about how you can support their learning at home.

Pupil progress is personal to your own child and in line with their own development. Therefore, your child’s progress can not be compared with another learner.

Following on from the report, after the Easter break, we are offering ‘Drop-in’ sessions which will be between 3.35 - 5pm on Tuesday 9th and Wednesday 10th April. **These sessions are for you and your child**. Please pop in with your child, at a time convenient to you, to look at their work and talk to your child about what they have been doing. **There is no need to book an appointment.** These sessions will take place in your child’s class and the teacher will also be available.
We look forward to seeing you and your child during one of these sessions!

**Summer First half term:** Swimming for yrs 5 & 6 and yrs 1 & 2 **Summer Second half term:** Swimming for Reception and yrs 3 & 4